IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 25 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Lloyd |

28 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

29 : CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED SAFLE – NEUADD GYMUNEDOL CYMDEITHAS GYPRAIDD GROEGAIDD CYMRU

Ymgeisydd: Dean Atkins, Offeiriad yn Eglwys y Forwyn Fair

Trwyddedai: cynrychiolwyd gan Mr Petride, Trysorlys Canolfan Gymunedol y Gymdeithas Gypraidd Groegaidd

Y Cais

Derbyniwyd cais i adolygu Tystysgrif Safle Clwb mewn perthynas â'r Drwydded Safle sydd gan Neuadd Gymunedol Cymdeithas Gypraidd Groegaidd Cymru, Greek Church Street, Butetown, Caerdydd, CF10 5HA.

Cafodd copi o'r cais ei amgáu gyda'r adroddiad. Dyma fanylion cryno:

> Honnwyd bod sŵn gormodol, y torrir yr oriau a ganiateir, bod torfeydd yn yfed alcohol yn y stryd, y terfir ar gymdogion, bod defnydd o gyffuriau, sbwriel, digwyddiadau heb eu goruchwylio a bod bygythiadau llafar wedi'u gwneud.

Ar ddechrau'r cyfarfod dywedodd y Swyddog Trwyddedu mai Mr Constanda yw'r Trwyddedai, nid Mr Michael Michael, fel y nodir yn y papurau Adolygu Cais.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Siaradodd Dean Atkins â'r Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais i adolygu'r Drwydded Safle Clwb wedi dilyn nifer o flynyddoedd o drafodaethau rhwng yr Eglwys a'r Gymdeithas mewn perthynas â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn y safle. Dywedodd Dean Atkins na chydymffurfir ag amodau'r drwydded yn gyson, yn benodol, y dylai person sy'n gyfrifol, sy'n cynrychioli'r Gymdeithas, fod ar y safle trwy'r amser pan fo digwyddiadau.

Dywedodd Dean Atkins ei fod wedi ceisio datrys y materion hyn yn anffurfiol trwy gysylltu ag Aelodau o Bwyllgor y Gymdeithas. Fodd bynnag, er gwaethaf siarad ag Aelodau o'r Pwyllgor, mae'r problemau'n parhau.

Cododd Dean Atkins bryderon penodol ynghylch pobl yn yfed alcohol y tu allan i'r safle, partïon yn para tan 0400, cerddoriaeth swnllyd, torfeydd o bobl yn y stryd, plant

heb eu goruchwylio yn y digwyddiadau, pobl yn cymryd cyffuriau, sbwriel, gweithgaredd rhywiol ar diroedd yr Eglwys a materion parcio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y cafodd Dean Watkins ei frawychu a'i wthio allan o ddrws y safle pan geisiodd fynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod digwyddiad oedd yn cael ei gynnal yn y safle.

Adroddwyd i Ty Gobaith ffonio Heddlu De Cymru er mwyn rhoi gwybod iddynt yr oedd mariwana'n cael ei ddefnyddio yn y safle yn ystod un o'r digwyddiadau hyn.

Dywedodd Dean Atkins fod y partïon yn y safle yn tarfu'n fawr ac nad oes ffordd o gysylltu â Phwyllgor y Gymdeithas er mwyn datrys y materion. Mae'r partïon yn afreolaidd ac maent yn creu problem mawr iawn. Cododd pryderon nad yw Aelodau o'r Gymdeithas yn fodlon cwrdd, neu gymryd cyfrifoldeb, ac o ganlyniad, mae'r problemau wedi digwydd dros gyfnod hir.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd Dean Atkins fod yr holl gwynion yn ymwneud â gweithgareddau yn Neuadd Eglwys Cymdeithas Gypraidd Groegaidd Cymru. Mae cwynion wedi'u gwneud i'r gwasanaeth 101 ac i adran Drwydded Cyngor Caerdydd.

Cynrychiolydd y Trwyddedai

Siaradodd Mr Petrides â'r Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Petrides iddo gyfarfod â'r Adran Drwyddedu ar y safle 18 mis yn ôl ac yn y cyfarfod hwn esboniwyd amodau'r drwydded yn llawn iddo, gan fod rhywfaint o gamddealltwriaeth wedi bod ynghylch gofynion amodau'r drwydded. Mae'r Trwyddedai, Mr Constanda, yn ddyn 90 oed sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae gan y Gymdeithas y ffurflenni angenrheidiol ac mae'n bwriadu newid deiliad y drwydded. Ymrwymwyd y cydymffurfir â'r holl amodau yn y dyfodol.

Dywedodd Mr Petrides yr oedd yn y digwyddiad pan honnwyd bod Dean Atkins yn plagio staff y drws. Gofynnodd Mr Petredis a ellir ystyried bod y gerddoriaeth o'r safle yn broblem pan fo Tad yr Eglwys Uniongred Groegaidd yn byw ger Neuadd yr Eglwys a heb gwyno am y gerddoriaeth unwaith yn y gorffennol.

Cwynodd Mr Petrides y cafodd ei ddihuno am 0030 ar un achlysur gan alwad ffôn gan Dean Watkins yn cwyno am ddigwyddiad yn Neuadd yr Eglwys. Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, dywedodd Mr Petrides nad oedd ar y safle yn ystod y digwyddiad.

Dywedodd wrth yr Aelodau i swyddogion o'r Adran Drwyddedu fynd i'r safle am 0400 ar ddau achlysur. Dywedodd Mr Petrides fod y Gymdeithas wedi'i chamarwain ac wedi'i siomi gan y bobl sy'n rhentu'r neuadd. O ganlyniad, mae'r Gymdeithas wedi stopio rhentu'r neuadd.

Pan ofynnwyd i Mr Petrides pam nad oedd rhywun yn bresennol, dywedodd fod y Gymdeithas yn cael nifer o broblemau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Gymdeithas yn gobeithio gwerthu'r brydles yn fuan. Gwnaeth Mr Petrides nifer o sylwadau di-sail am y grwpiau y mae'r Gymdeithas yn

rhentu'r neuadd iddynt.  Credodd yr oedd Dean Atkins yn defnyddio'r materion hyn i 'groesgadu' y Gymdeithas.

<u>Crynhoi</u>

Dywedodd Mr Petrides fod y Gymdeithas yn ymwybodol o'r materion a'i fod yn ceisio mynd i'r afael â nhw.  Dywedodd nad yw'r cwynion wedi'u derbyn yn gyson a bod Dean Atkins yn cwyno dim ond pan fo aelodau o grŵp ethnig penodol yn defnyddio'r neuadd.  Gwrthododd Dean Atkins yr honiad hwn yn gryf.

Eglurodd Dean Atkins ei sefyllfa.  Mae digwyddiadau yn safle yn achosi nifer o broblemau ac ni chydymffurfir ag amodau'r drwydded.  Pan geisiodd godi pryderon yn ystod y digwyddiadau, nid oedd person cyfrifol yn y safle.  Dywedodd Dean Atkins nad oes gwrthwynebiad ganddo o ran defnyddio'r eglwys ar gyfer digwyddiadau, ond bod y partïon sy'n cael eu cynnal yn achosi problemau ac nad yw amodau'r drwydded safle yn cael eu dilyn.

PENDERFYNWYD – y byddai'r Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, ac wedi ystyried y dystiolaeth wedi'i dwyn ger ei fron, yn atal y drwydded am dwy wythnos. Mae hyn er mwyn galluogi Pwyllgor y Clwb i roi camau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau yn y drwydded sy'n cefnogi'r nod o atal niwsans cyhoeddus yn y dyfodol.